

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	12 Mawrth 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	27 Mawrth 2019

---

**PWNC**

Eitem 6:STRATEGAETH ANABLEDDAU DYSGU GOGLEDD CYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo ymrwymiad Cyngor Gwynedd i weithredu'r Strategaeth Anableddau Dysgu yn lleol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys dyletswyddau statudol i Fyrddau Partneriaeth ranbarthol i flaenoriaethau integreiddio gwasanaethau mewn perthynas ag anableddau. Mae'r blaenoriaethau i'w gweld yng Nghynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ogystal â chynlluniau gwella'r Cyngor.

Mae Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn gweithio tuag at wasanaethau anableddau dysgu integredig, ac fe'i datblygwyd ar y cyd rhwng yr awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd a gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	12 Mawrth 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	27 Mawrth 2019

---

### PWNC

Eitem 7:AD-DREFNU DARPARIAETH ADDYSG GYNRAEDD DALGYLCH BANGOR

---

### PENDERFYNIAD

Cadarnhau'n derfynol y cyfraniad gan y Cyngor tuag at becyn ariannu llawn o £12.7miliwn ar gyfer ad-drefnu darpariaeth Addysg Gynradd Dalgylch Bangor.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Penderfynodd y Cabinet ym Mawrth 2018 i ad-drefnu'r ddarpariaeth Addysg ym Mangor, gan gytuno i ymestyn Ysgol y Faenol ac i roi Ysgol newydd i'r Garnedd. Gan fod Ysgol y Faenol yn Ysgol wirfoddol dan Reolaeth (CWR) yr Eglwys yng Nghymru, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi'r mai'r Corff Llywodraethol sydd a'r hawl i wneud penderfyniad ar gynyddu'r capasiti'r Ysgol gyda'r Awdurdod Lleol yn medru hwyluso'r broses. O ganlyniad i hyn, corff Llywodraethol y Faenol, ac nid y Cabinet, oedd y cynigydd yn yr achos hwn.

Er mwyn sicrhau fod y prosiect ad-drefnu yn cael ei wireddu, mae angen cadarnhau'r cyfraniad gan y Cyngor, yn sgil sefyllfa arbennig Ysgol y Faenol ble mai'r Corff Llywodraethol yw'r cynigydd.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Cyng. Dafydd Meurig gan fod ei chwaer yn rhedeg y feithrinfa ar safle Ysgol y Faenol. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	12 Mawrth 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	27 Mawrth 2019

---

### PWNC

Eitem 8:SEFYDLU TREFNIADAU AR GYFER PENODI CRWNER CYNORTHWYOL

---

### PENDERFYNIAD

1. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol:
    - a) I baratoi manylion swydd a phersonol ynghyd a threfn benodi ar gyfer swyddi Crwner cynorthwyol a hynny mewn ymgynghoriad a'r Uwch Grwner a threfnu i hysbysebu
    - b) I sefydlu panel er mwyn tynnu rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr, ac i benodi Crwneriaid Cynorthwyol yn ôl yr angen.
- 

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Crwner Cynorthwyol presennol wedi ymddiswyddo yn sgil penodiad i'r farnwriaeth , ac mae'n ofynnol penodi o leiaf un Crwner Cynorthwyol i bob ardal grwnerol. Yn y dyfodol, gall yr angen godi i fod angen penodi Crwner Cynorthwyol Arall, ac mae angen sicrhau fod y trefniadau dirprwyedig ar gyfer y proses wedi eu sefydlu ac yn eglur.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---